

Julie James AC
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip
Llywodraeth Cymru

8 Hydref 2018

Annwyl Julie

Newidiadau i Reolau Sefydlog yn ymwneud â Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor adran 116C

Cyfeiriaf at adroddiad y Pwyllgor Busnes ar gynigion i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â chraffu ar Orchmynion yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 116C o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

Mewn gohebiaeth flaenorol gyda'r Pwyllgor Busnes, cawsom wybod bod Llywodraeth Cymru yn ei hystyried yn broblem diwygio'r Rheol Sefydlog 25 bresennol, sy'n ymwneud â chraffu ar Orchmynion yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 109 o *Ddeddf 2006*. Buasem yn ddiolchgar pe gallem gael esboniad ynghylch pam roedd Llywodraeth Cymru yn ei hystyried yn broblem rhoi Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 116C o *Ddeddf 2006* drwy yr un broses graffu â'r rhai o dan adran 109.

Buasem hefyd yn croesawu esboniad ynghylch pam rydych yn teimlo y dylid cynnwys y weithdrefn newydd yn Rheol Sefydlog 27, yn hytrach na Rheol Sefydlog 25A newydd. Fel yr esboniwyd yn ein llythyr at y Pwyllgor Busnes ar 12 Ebrill 2018, credwn y byddai creu Rheol Sefydlog newydd wedi bod yn ffordd gliriach, fwy trefnus a mwy hygyrch o symud ymlaen.

Rydym yn nodi'r ymrwymïadau a roddodd Llywodraeth Cymru yn adroddiad y Pwyllgor Busnes ym mharagraff 10. Byddem yn ddiolchgar pe gallech esbonio pam mae Ysgrifennydd y Cabinet yn fodlon cwrdd â dim ond y Cadeirydd yn hytrach na'r Pwyllgor cyfan.

O gofio y byddai cyfarfod o'r fath yn dilyn cyfarfod gyda'r Pwyllgor Trysorlys ar y Cyd, byddai'n ddefnyddiol pe gallech nodi sut rydych yn bwriadu ein hysbysu ymlaen llaw o bryd y cynhelir y cyfarfodydd gyda'r Pwyllgor Trysorlys ar y Cyd.



Edrychaf ymlaen at glywed gennych maes o law.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Mick Antoniw". The signature is written in a cursive style with a horizontal line underneath the name.

Mick Antoniw AC

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

